

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
2 Hydref 2023 yn Festri Capel, Penuwch am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
2 October 2023 at Penuwch Chapel Vestry at 8.00pm

Cydyndeimlwyd efo Mr John Davies ar golli ei wraig Nel Davies. Bu Mr Davies yn aelod ffyddlon o Gyngor Cymuned Llangeitho am nifer fawr o flynyddoedd ac yn ofalwr ar Festri Capel Penuwch.

Condolences were expressed to Mr John Davies on the death of his wife Nel Davies. Mr Davies had been a faithful member of Llangeitho Community Council for a number of years and caretaker of Penuwch Chapel Vestry.

Presennol/Present

Cyng/Cllr Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Sarah Evans, Gwilym Evans, Daniel Thomas, Beryl Evans, Dafydd Morse, Gerwyn Ebenezer, Paul Rooke (gadael am 9.10), Ieuan Gwynne (gadael am 9.10), Myrddin James & Cyng/Cllr Emyr Jones

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Yn absenoldeb yr heddlu, cylchredwyd ei adroddiad trwy e-bost. / *In the absence of the police, his report was circulated prior to the meeting.*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Medi yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse. *The minutes for the September meeting were agreed as being correct by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Dafydd Morse.*

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cyng Gwilym Evans wedi ymweld a pherchennog yr Hungry Ram i drafod rhoi'r bocs lan ar wal yr Hungry Ram cyn ddiwedd Rhagfyr 2023, heb drydan am nawr.
Cllr Gwilym Evans had visited the Hungry Ram to discuss placement of the box on the wall of the establishment by the end of December 2023, without an electricity supply for now.
- Gofynnir i'r Clerc ymchwilio mewn i'r gost o gael peiriant diffib ychwanegol yn Rhydypany, Llangeitho.
The Clerk was asked to enquire to the costs of installing an additional defibrillator at Rhydypany, Llangeitho.
- Bocs i ddal peiriant diffib yn Garej Stags Head wedi'u osod, Clerc yn disgwyl i'r peiriant diffib i gyrraedd.
The box for the defibrillator at Stags Head garage had been installed, Clerk awaiting delivery of the defibrillator.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans.
BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsym mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.
Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.
- Y Bocs grit/halen newydd oedd i'w leoli ar y ffordd i Llyn Fanod dal heb cyrraedd y lleoliad.
The new grit/salt box to be located on the road to Llyn Fanod still not in place.
- Mr Paul Toft, Arbenigwr Coed wedi cwplu'r gwaith ar y goeden Ywen. Diolchwyd i Cyng Myrddin James i gynorthwyo gwaredu â'r brigau/pridd c ati, diolchwyd i'r Clerc am benthyg y conau traffig ac i Cyng Sarah Evans i gadw'r lle'n wag o draffig er mwyn i'r gwaith gael ei wneud.
Mr Paul Toft, Tree Specialist had completed the work on the yew tree. Thanks were expressed to Cllr Myrddin James for taking away and disposing of the branches etc, the Clerk for traffic cones and Cllr Sarah Evans for ensuring the road around the tree was kept free so that the work could be carried out.
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.
The new grit/salt box to be located on the road to Llyn Fanod still not in place.

- Cwmni BT dal yn disgwyl cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth perchennog daear oddi tan ciosg BT Rhydypany, cytunwyd i drafftio llythyr o gadarnhad i'r perchennog gael darllen, cymeradwyo'r geiriad a'i arwyddo.
BT still awaiting written confirmation from the landowner of the land under the BT kiosk in Rhydypany, it was agreed to draft a letter granting permission for landowner to read, agree to and sign.
- Perchennog ffens y parc dal heb gwblhau codi'r ffens.
The park fence had not been repaired by the owner.
- Cyng Daniel Thomas & Myrddin James i ymgymryd a'r gwaith o thrimio'r goeden gelyn yn y parc.
Cllr Daniel Thomas & Cllr Myrddin James to trim the holly tree in the park.
- Cwblhawyd holiadur y Comisiwn Ffiniau cyn ddiwedd mis Medi.
The questionnaire from the Boundaries Commission was completed before the end of September.
- Clerc wedi anfon i e-bost i Mr Huw Davies ynghlŷn a cyfrifoldeb mynwent Capel Llwynpiod a'r rhodd ariannol sydd i'w hanfon iddynt, dim ymateb wedi'u dderbyn, clerch i gysylltu unwaith eto.
- *Clerk had sent an email to Mr Huw Davies regarding the responsibility for the cemetery at Capel Llwynpiod as the chapel had closed and the financial contribution to be forwarded. No response to date.*
- Angen trafod ymhellach yr e-bost a dderbyniwyd ynghlŷn a'r hen cysgodfan bws, Tro Pair, Cyng Rhodri Evans i ymchwilio ar berchnogaeth yr hen gysgodfan.
Further discussion was needed regarding the email received about the old bus shelter at Tro Pair. Cllr Evans to enquire into the ownership of the old bus shelter.
- Cynhelir cyngerdd ar gyfer codi arian i'r Eglwysi lleol ar nos Sadwrn 7fed o Hydref 2023 am 7.30 o'r gloch.
A concert to raise money for local churches to be held at Llangeitho Hall on Saturday 7th October 2023 at 7.30pm.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.
The hedge cutting at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar gyffordd Glanwern, Penuwch
The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch need to be painted.

Llyn Fanod

Clerc i gysylltu a'r cyfreithiwr yn bersonol am ymateb i'r llythyr diwethaf anfonwyd iddo.
The Clerk to contact the solicitor personally regarding the response the last letter sent to him.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Medi 2023 £123.11 – *September 2023 Clerk Wages*

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Beryl Evans Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Gwenfair Owen

Arwyddion cyflymdra 20mya/20mph Traffic Signs

Soniwyd am y fandaliaeth a wnaed i arwyddion newydd 20mya yn y Gymuned, y siom a gafwyd wrth weld gymaint o fandaliaeth yn paentio'r arwyddion ynghyd a'i torri lawr a'i symud. Gofynnir yn garedig i PCSO John Evans mynychu fwy o gyfarfodydd ac i wneud ei hun yn fwy weladwy yn y Gymuned. Soniwyd bod y gost o ail godi'r arwyddion yma a'i rhoi nol yn y llefydd cywir yn cwmpo nol ar y Gymuned. Gofynnir i Cyng Rhodri Evans i ymchwilio fewn i'r hawl sydd gan y Cynghorwyr i fynd oddi amgylch y Gymuned i'w glanhau. Trefnir dyddiad ac amser i gwrdd i lanhau'r arwyddion yn y dair ward. Gofynnir i'r Cynghorwyr drafftio llythyr i'w gylchredeg i sefydliadau/mudiadau lleol i ddatgan ein siom ar y fandaliaeth yma yn y Gymuned.

The matter of vandalism to the new 20mph signs was raised, and the disappointment of councillors on seeing so many of the signs painted and taken down. PCSO John Evans is kindly asked to attend more meeting and to make himself more visible within the community. It was noted that reinstalling the signs would fall on the community. Cllr Rhodri Evans to enquire as to the rights of councillors to clean the signs. A date to be arranged to meet to carry out cleaning work. The councillors were asked to draft a letter to be circulated to local societies/organisations stating the council's disappointment on the vandalism that had taken place within the community.

Gohebiaeth/Correspondence

- Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Eglwys Llangeitho am y rhodd ariannol.
A letter of thanks received from Llangeitho Church for the Financial donation.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Derbyniwyd a chylchredwyd hysbysiad ynghylch 'Adolygu Dosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio' – cytunwyd bod Gorsafoedd Pleidleisio Llangeitho yn addas iawn ar gyfer Etholiadau

ond bwriadu trafod y ddogfen yn y cyfarfod nesaf ddechrau Tachwedd, dyddiad anfon ymatebion nol – 10 Tachwedd 2023.

A notification was received and circulated regarding “*Review of Polling Districts, Polling Places & Polling Stations – it was agreed that Llangeitho Polling Station was suitable for elections but the paper would be discussed at the November meeting – observations to be returned by 10 November 2023.*”

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cathryn Morgan, yn ein hysbysu fod Cyngor Sir Ceredigion wedi lansio ymgynghoriad yn gofyn am ein barn ar ba lefel o bremiymau'r dreth Cyngor a dylid eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion – dyddiad cau'r ymgynghoriad – 29 Hydref 2023. Gofynnir i'r Cynghorwyr anfon sylwadau nôl i'r clerac a fydd yn trafod yr ymatebion efo'r Cadeirydd cyn anfon yn ôl i'r ymgynghoriad.

An email was received from Cathryn Morgan, informing us that the Cyngor Sir Ceredigion had launched a consultation asking for our opinion on the level of premiums on Council Tax for long-term empty and second homes in Ceredigion – closing date for responses – 29 October 2023. Councillors were asked to send comments to the Clerk and those would be discussed with the Chairman before responding to the consultation.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

- Holiadur ‘Ymgynghoriad ar ein Cynllun Cydraddoldeb newydd 2023-2026’ wedi’u dderbyn, angen ymateb erbyn 12.09.23 – Dim gweithrediad.
‘Consultation on our new draft Equality Plan 2023-2026’ questionnaire received, responses by 12.09.23 - no action

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod Banc Barclays wedi cysylltu unwaith yn ragor am lofnod Mrs Mattie Williams dal ar y cyfrif.
Barclays Bank had contacted the clerk again as Mrs Matties Williams’ signature remains on the account mandate.
- Clerc yn mynd i greu grŵp ‘Cyngor Cymuned’ ar What’sapp – gofynnir i bawb cadarnhau derbyn y gwahoddiad i ymuno.
Clerk to create a Community Council Whatsapp Group – members were asked to accept the invitation to join.
- Clerc i anfon rhestr o bwyllgorau'r dyfodol ynghyd a lleoliadau ymlaen i'r Cynghorwyr.
The Clerk to distribute a list of meeting dates and locations to the Councillors.
- Angen trafod Praecept 2024-25 yn y cyfarfod nesaf.
The Precept for 2024-25 to be discussed at the next meeting.
- Angen llenwi twll yn y ffordd o dan Aeron View, Llangeitho.
Pothole in from the Aeron View, Llangeitho needs to be repaired.
- Angen sweeper yn y Gymuned.
Calls for the sweeper to clean numerous locations within the community.
- Drain angen gwacau ar bwys Johnson, Gilrhug, Llangeitho.
The drains by Johnson Cilrhug, Llangeitho need to be cleaned,
- Gofynnir y cwestiwn, pryd fyddai ymateb yn dychwelyd am yr Ymgynghoriad o'r comisiwn ffiniau.
When could we expect a response following the consultation by the Boundaries Commission?
- Drain angen gwacau ar waelod rhiw Gaerlwyd, Llwynpiod.
Drain at the bottom of the hill near Gaerlwyd, Llwynpiod need to be cleaned.
- Soniwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am ddodi coeden Nadolig yn Parc Llangeitho, Cyfeillion Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho oedd arfer yn flaenorol trefnu'r goeden a'r addurniadau.
It was noted that the Community Council had never been responsible for placing a Christmas Tree in the Park. Cyfeillion Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho had previously taken responsibility for arranging the tree and decorations.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwibili Llangeitho ar nos Lun 6ed o Dachwedd 2023 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Jubilee Hall, Llangeitho on Monday 6th November 2023 at 8pm.